# Esiamplau Gweithredu ar gyfer eich Cynllun Ysgol Teithio Llesol

## Gwersi

- Gwers: Llwybrau Diogelach i'r Ysgol
- Gwers: Dylunio Strydoedd
- Gwers: Gwiriad Stryd Iach

## Gwasanaethau Boreol

- Gwasanaeth i gyflwyno Teithio Llesol a'i fanteision
- Ansawdd Aer

## Teclyn mapio cymunedol

- Gwers: Gwiriad Stryd Iach

## Teithiau cynaliadwy i'r ysgol

- Bws cerdded wedi'i sefydlu naill ai'n ddyddiol, yn wythnosol neu'n fisol
- Parcio a rhodio wedi'i sefydlu ar gyfer y rhai sy'n gorfod gyrru mwy na 2 filltir
- Ystyried Strydoedd Ysgol (cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth)
- Hyrwyddo parcio 'ystyriol'
- Cyfyngiadau parcio a hysbysu rhieni am yr hyn mae amrywiol gyfyngiadau parcio'n ei olygu go iawn
- Cynnal Ymgyrch Parcio'n Ddiogel, Cerdded yn Ddiogel neu ddefnyddio elfennau ohono i fynd i'r afael â phroblemau parcio yn eich ysgol

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Hyrwyddo cerdded, olwyno a beicio

Y gymdeithas rieni ac athrawon yn cymryd rhan weithgar mewn digwyddiadau Teithio Llesol fel bws cerdded neu ddigwyddiadau arbennig

Cymryd rhan yn 'Wythnos Cerdded i'r Ysgol'

Cerdded Unwaith yr Wythnos (Walk once a Week – WoW)

Darparu cysgodfan i rieni/gofalwyr/disgyblion, iddynt gael cysgodi pan mae hi'n bwrw glaw

Darparu storfeydd bygis – os oes gennych ddosbarthiadau meithrin

Sefydlu her pedometr/mesurydd camau

Darparu hyfforddiant beiciau balans i ddisgyblion iau

Cyflwyno/cynyddu'r nifer o blant sy'n mynychu hyfforddiant beicio Bikeability

Trefnu hyfforddiant cynnal a chadw beiciau i deuluoedd (Dr. Bike)

Darparu hyfforddiant pontio i ddisgyblion blwyddyn 6, i'w paratoi ar gyfer y siwrne i'r ysgol uwchradd

Hyfforddiant beicio a chynnal a chadw i staff

Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Beic Di-Dreth i staff (cynlluniau beicio i'r gwaith)

Cynyddu cyfleusterau storio beiciau / newid ar gyfer disgyblion a staff

## Cyfleusterau ysgol Teithio Llesol

Help i gael gafael ar gyllid ar gyfer storfeydd sgwteri/beiciau

Cyfleusterau newid hygyrch ar gyfer disgyblion a staff sy'n teithio'n llesol

## Diogelwch ar y Ffyrdd

Cofrestru ar gyfer digwyddiadau Diogelwch ar y Ffyrdd

Cynnwys addysg diogelwch ar y ffyrdd yn y cwricwlwm

Cysylltu â'r Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd yn eich Awdurdod Lleol i weld beth sydd ar gael o ran theatr addysg ac adnoddau

Cynnal gwasanaeth ar thema diogelwch ar y ffyrdd bob tymor / blwyddyn

Gwella llwybrau i gerddwyr a/neu feicwyr ar dir yr ysgol

## Cyffredinol

Man diogel newydd ar dir yr ysgol i storio beiciau a sgwteri

Yr ysgol i gymryd rhan mewn un digwyddiad Teithio Llesol y flwyddyn

Hyfforddiant neu sesiwn i staff ar deithio llesol

Posteri yn yr ysgol ac o'i hamgylch yn hyrwyddo teithio llesol

Holl staff i wneud ymrwymiad blynyddol i roi cynnig ar deithio'n llesol o leiaf unwaith yr wythnos

Clwb ar ôl ysgol ar Deithio Llesol

Cyfranogiad yn y rhaglen bartner: Beicio Cymru, Strydoedd Byw

Cysylltu ag ysgolion cyfagos i fynd i'r afael â phroblemau ar y cyd

Annog ymwelwyr i deithio'n llesol

# Gweithredu a gweithgareddau fesul tymor

## Tymor yr Hydref

Diwrnod Dim Allyriadau

Diwrnod Dim Car y Byd
Annog teuluoedd i adael y car gartref am ddiwrnod yn cynnwys cymelliadau i ddisgyblion nad ydynt yn cyrraedd mewn car.

Wythnos Beicio i'r Ysgol

Diwrnod Calon y Byd
Gweithgareddau yn ystod y dydd i gael disgyblion yn ymwybodol o iechyd eu calon a sut gall teithio'n llesol helpu i gadw calonnau'n iach.

Mis cerdded i'r ysgol
Wythnos cerdded i'r ysgol, Bws cerdded i'r ysgol, cystadleuaeth neu weithgaredd Sbriwsio eich Siaced, Dylunio dillad/esgidiau sy'n ddelfrydol ar gyfer cerdded i'r ysgol.

Diwrnod rhyngwladol cerdded i'r ysgol
Bws Cerdded i'r ysgol/Cymhelliant cerdded i deuluoedd/disgyblion.

Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd
Annog eich disgyblion, rhieni a staff i ddod i'r ysgol gan ddefnyddio dull llesol am y diwrnod i godi ymwybyddiaeth am fanteision teithio llesol i'n hiechyd meddwl a rhoi hwb i'w llesiant.

Clociau'n troi'n ôl (Cyhydnos)
Annog defnyddio goleuadau, adlewyrchwyr a dillad lliwgar i gael hwyl a chadw'n ddiogel! Rhowch gynnig ar gynnal cystadleuaeth am y dillad mwyaf llachar, trefnu arwerthiant offer lliwgar.



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Calan Gaeaf
Bling ar y Beic/Sbriwsio'r Sgwter/Sbriwsio eich Siaced ar thema Calan Gaeaf cyn hanner tymor.

Diwali
G yl goleuni Hind – annog defnyddio goleuadau, adlewyrchwyr a dillad lliwgar. Gwasanaeth – Bydd Lachar! Cystadleuaeth gwisgo'n llachar.

Diwrnod Plant y Byd
Cael disgyblion i gymryd rhan mewn trefnu diwrnod o weithgareddau teithio llesol.

Wythnos Diogelwch ar y Ffyrdd

Diwrnod Rhyngwladol Ymwybyddiaeth Anableddau
Trafod pa anableddau y gall pobl eu hwynebu a pha fathau o offer olwynion allai fod yn addas.

Ffair Nadolig
Gwybodaeth i rieni ar y mathau o feiciau a sgwteri i'w prynu.

## Tymor y Gwanwyn

Addunedau blwyddyn newydd
Cerdded, sgwtera, beicio i'r ysgol (ac i leoedd eraill) yn amlach

Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd
Blingio'r Beic/sgwter/siaced ar thema Tsieineaidd.
Archwilio sut mae disgyblion yn Tsieina'n teithio i'r ysgol.

Dydd Santes Dwynwen
Mewn cariad â cherdded/beicio/sgwtera i'r ysgol?
Gweithgaredd creu poster i annog eraill i ddangos eu cariad at eu llwybr cerdded/sgwtera/beicio i'r ysgol hefyd. Creu cerdd yn dweud pam rydyn ni'n caru teithio llesol!
Diwrnod caru dy feic/sgwter – glanhau beiciau/sgwteri.
Bling ar y Beic/Sbriwsio'r Sgwter/Sbriwsio eich Siaced ar thema Dydd Santes Dwynwen.

Wythnos Genedlaethol Adrodd Stori
All eich disgyblion ddweud stori dda am eu taith lesol i'r ysgol?

Dydd Mawrth Crempog (Dydd Mawrth Ynyd)
Brecwast crempog i'r rhai sy'n teithio'n llesol

Diwrnod y Llyfr
Darllen llyfrau ar thema teithio llesol.
Addurno beiciau/sgwter/eu hunain fel hoff gymeriadau llyfrau.

Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
Digwyddiadau ar gyfer benywod – annog mamau, staff benywaidd, ac eraill yn y gymuned i deithio'n llesol ar y daith i'r ysgol.

Diwrnod Rhyngwladol ar Ddiddymu Gwahaniaethu ar sail Hil
Edrych ar sut mae plant ledled y byd yn cyrraedd yr ysgol.

Diwrnod Pi Cenedlaethol
Rhannu ein hadnoddau ar Pi gyda'ch athrawon mathemateg!

Sul y Mamau
Plant i awgrymu taith gerdded / beicio – gwell anrheg i Mam na bocs o siocled!

Comic Relief
Taith gerdded/beicio/sgwtera noddedig i godi arian.

YMUNWCH Â'R MUDIAD sustrans JOIN THE MOVEMENT
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Tymor yr Haf

Y Pasg
Addurno helmedi fel boneti Pasg.
Bling ar y Beic/Sbriwsio'r Sgwter/Sbriwsio eich Siaced ar thema'r Pasg.

---

Diwrnod y Ddaear
Cyfle delfrydol i blant wneud adduned i adael y car gartref.

---

[Stroliwch a Roliwch Sustrans]
Her beicio, sgwtera, cerdded.

---

Wythnos Beicio i'r Ysgol

---

Mis Pride
Beth am gael gweithgaredd blingio'r beic/sgwter/b ts/dillad i ddathlu'r gymuned LGBTQ?

---

Diwrnod Amgylchedd y Byd
Gwasanaeth yn trafod Newid Hinsawdd a Theithio Llesol

---

Sul y Tadau
Digwyddiad gan yr ysgol i fynd â Dad allan am dro neu i feicio? Disgyblion i drefnu'r llwybr/diwrnod fel gwaith dosbarth.






Brian Morrison



Kois Miah